

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Mehefin a Gorffennaf 2016**

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

5 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

12 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Beth Davies
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

19 Mehefin

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	

26 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Mr Rhys Bebb Jones
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa deulu

3 Gorffennaf - ond efallai y bydd trip - manylion i ddilyn...

Aberduar	10.00 y bore	Cymun

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

3 Gorffennaf (parhad)

Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

10 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	**Sul Sbesial**

- yn Neuadd Ysgol Bro Myrddin am 10.30 yng nghwmni Arfon Jones.

Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

17 Gorffennaf

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	

24 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Athro Densil Morgan
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	

31 Gorffennaf

Seion	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch

Te'r Ifanc o Galon

Bydd Bethel, Caersalem a Noddfa yn cydweithio i ddarparu te i'r rhai ifanc o galon yn Neuadd Victoria ar y 29ain o Fehefin. Fe fydd angen rhoddion te, a gwobrau raffl bach, a rhai i weini ac i olchi llestri. Manylion i ddilyn.

Apêl Cymorth Cristnogol Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae apêl newydd er mwyn cefnogi gofal mamau yn Ghana, lle mae 20 gwaith mwy o wragedd yn marw yn dilyn genedigaeth o'u cymharu â phrofiad merched Cymru. Os llwyddwn i gasglu £40,000 fe fydd £500,000 yn cael ei ychwanegu ato gan y llywodraeth. Rhaid inni drio!

Oedfa eciwmenaidd

Cynhelir oedfa eciwmenaidd yn Llanbedr Pont Steffan ar gyfer Cristnogion y dref tua diwedd mis Gorffennaf. Manylion i ddilyn.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis.*

Cymanfa Ganu
Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu hon ar ddiwrnod braf o fis Mai, ym Methel Cwm Pedol (diolch i'r eglwys hon am y trefniadau) o dan lywyddiaeth Elliw Dafydd, Bethel, ac o dan arweiniad Delyth Phillips, Noddfa. Emlyn Davies, Aberduar, oedd wedi arwain y Rihyrsal unwaith eto eleni, a diolchwn i'r tri ewyllysgar hyn am eu gwasanaeth i'r Arglwydd. Bu Delyth yn rhannu o'i diddordeb yn yr emynau wrth eu cyflwyno, ac yn rhoi cyfle i'r plant ddisgleirio, ac wrth i'r plant wedyn ymuno mewn sgwrs gydag Elliw, fe glywyd sawl sŵn anifeilaidd na chlywyd mohonynt o'r blaen mewn Cymanfa! Ond wrth eu gwaith, yn darllen, yn adrodd, ac yn canu, roedd y plant yn wych a diolch arbennig i Janet Evans, Noddfa, am ei gwaith, yn hyfforddi'r plant, ac i'r rhieni, am eu rhedeg nôl a mlaen, ac i'r plant wrth gwrs, hefyd am eu cyfraniad. Diolch hefyd i'r holl gantorion lleol ddaeth atom i addoli. Roedd y trefniadau am un oedfa, yn hwyr y prynhawn, yn gyfaddawd oedd wedi galluogi nifer o'r cantorion i gymryd rhan mewn ras redeg yn lleol yn gynharach y dydd ac yn benderfyniad llwyddiannus i'w weld. Cawsom de braf wedyn cyn troi am adref.

Oedfa Deulu yn Noddfa

Bydd yr Oedfa Deulu nesaf ar 26 Mehefin am 5 o'r gloch yr hwyr, yn addas i blant ac oedolion, o dan ofal fy ngofal i - ac rwy'n edrych ymlaen i'ch gweld! Bydd gweithdy i'r plant lleiaf yn ystod rhan o'r oedfa. Dewch! Inni gael dathlu ac addoli gyda'n gilydd.

Oedfa Fedydd

Roedd Sul cyntaf mis Ebrill yn ddiwrnod pwysig ym mywyd Aberduar, am ein bod yn cael y fraint o agor y fedyddfan ar gyfer oedfa fedydd. Y brawd David Alexander, o Dŷ Mawr, oedd wedi gofyn am fedydd ac fe ymunodd ei deulu a'i ffrindiau gyda ni yn Aberduar i glywed ei eiriau o dystiolaeth, ac i fod yn dystion i'r bedydd. Er mai yn gymharol ddiweddar mae David wedi dod i ardal Llanybydder i fyw, mae ganddo gysylltiadau teuluol yn mynd yn ôl dros sawl genhedlaeth. Yma, yn ystod y 1920au y bedyddiwyd ei fam, Sadie Ann Evans, Station Terrace, ac mae'n perthyn hefyd i'r David Davies a nodir fel pensaer a gyfrannodd at adeilad y capel. Derbyniwyd David yn aelod llawn o'r eglwys yn yr Oedfa Gymun bythefnos yn ddiweddarach.

Mae gwerthfawrogiad David o'r croeso mae wedi ei dderbyn yn Aberduar ac ym mhentref Llanybydder a'r ardal yn drawiadol, a dymunwn fendith Duw arno wrth iddo gyd-gerdded â ni yng Nghrist.

Cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru, 2016

Cynhelir y gynhadledd eleni yn y Tabernacl Caerdydd, o'r 4ydd hyd y 6ed o Orffennaf. Fe fydd gwaith yr Ysgol Sul dan sylw ar y bore Mercher, ac rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn llongyfarch Janet Evans, Noddfa, am iddi dderbyn gwahoddiad i annerch y gynhadledd ar waith yr Ysgol Sul yn yr oes hon. Dymunwn yn dda i chi Janet ar gyfer y sesiwn yma, a gynhelir am 9.45 y bore, ar y 6ed o Orffennaf.

Cylch Darllen

Bydd y Cylch Darllen yn cwrdd am y tro olaf yn ystod y sesiwn yma ar yr 8fed o Fehefin, am 10.30 yn festri Noddfa, a'r testun fydd Efengyl Ioan, pennod 20, adnodau 19 –29 (Thomas)
Croeso i bawb, a diolch i ffyddloniaid y Cylch am eu trafod brwd.

Ysgol Sul Noddfa

Mae gwaith yr Ysgol Sul yn Noddfa yn parhau - o ddydd Gwener i ddydd Gwener! - a bydd y plant yn ymweld ar yr 17eg o Fehefin â chartref Hafan Deg i ddiddori'r preswylwyr. Diolch i Janet a'r rhieni i gyd am eu holl waith gyda'r plant.

Fy ngwaith fel gweinidog

Bydd rhywfaint o newid o ran fy ngwaith i dros yr wythnosau nesaf. Ers ychydig dros 10 mlynedd, fe fu Hywel a fi'n teithio un neu ddau ddiwrnod yr wythnos i swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru a bu'r incwm i ni o'r gwaith yno yn gymorth imi barhau yn y weinidogaeth. Oddi ar y llynedd, fe fu dipyn o newid yn y trefniadau, a galw arnom i wneud llawer mwy, a daeth Hywel a fi i'r casgliad nad oedden ni ddim yn gallu cario ymlaen o dan yr amodau newydd. Yn ystod mis Mehefin fe fyddwn ni'n trosglwyddo'r gwaith i'n holynydd llawn-amser, a gadael y swyddfa erbyn diwedd Mehefin. Drwy gytundeb â swyddogion y Cylch, mae'n fwriad gennyf barhau wrth fy ngalwedigaeth i weinidogaethu, yn rhan amser, yn yr eglwysi (3 diwrnod yr wythnos fel nawr fwy neu lai) gan werthfawrogi'r cyfle i ymweld mwy â'r teulu hefyd - Hawys yn Llundain, Gwydion a Siwan ym Mangor, a mam a dad yn Henryd - yn lle dyddiau'r swyddfa.

Rwy'n diolch i'r swyddogion am eu parodrwydd a'u hewyllysgarwch wrth drafod y mater yma, ac rwy'n diolch i chi bawb am gael cydgerdded â chi yng ngweinidogaeth yr eglwysi hyn. Edrychwn ymlaen nawr at gyfnod newydd gyda'n gilydd gan ddiolch i Dduw am ei ras.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Gorffennaf:** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570423442, jilltomos@tesco.net